
Gwasanaethau cyfnewid fideo brys

Ymgynghoriad pellach

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 16 Chwefror 2021

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 30 Mawrth 2021

Trosolwg

Rydym am sicrhau bod pobl anabl yn gallu defnyddio'r gwasanaethau cyfathrebu sydd eu hangen arnynt mewn argyfwng.

Mae gwasanaethau cyfnewid fideo yn ddull i alluogi pobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydeinig (BSL) i gyfathrebu'n effeithiol â phobl nad ydynt yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydeinig.

Mae'r defnyddiwr byddar yn gwneud galwad fideo gan ddefnyddio dyfais cysylltiedig i ffonio dehonglydd mewn canolfan alwadau. Mae'r dehonglydd yn dehongli'r hyn y mae'r defnyddiwr byddar yn ei arwyddo i Saesneg llafar i'r gwasanaethau brys ei glywed, ac yn arwyddo'r hyn y mae'r gwasanaethau brys yn ei ddweud wrth y defnyddiwr byddar.

Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddwyd cynigion gennym i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu cyfathrebu ddarparu gwasanaeth cyfnewid fideo 24/7 am ddim i ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydeinig byddar i'w galluogi i gyfathrebu â'r gwasanaethau brys.

Roedd ein cynnig yn rhan o becyn o fesurau i wella gwarchodaeth defnyddwyr fel rhan o weithredu'r gyfarwydddeb Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (EECC). Mae'n adlewyrchu'r egwyddor y dylai pobl anabl fod â'r un lefel o fynediad i wasanaethau cyfathrebu brys.

Cafodd y cynigion yn ein hymgyngoriad cychwynnol gefnogaeth eang, ond cododd yr ymatebion rai pwyntiau penodol sy'n destun yr ymgynghoriad pellach hwn.

Beth rydym yn ei gynnig

Rydym yn cynnig ychwanegu at y rheolau y mae'n rhaid i ddarparwyr eu dilyn (ein Hamodau Cyffredinol), y gwnaethom ymgynghori arnynt yn ein hymgyngoriad gwreiddiol. Mae'r rhain yn ymwneud â:

- rhwymedigaeth ar ddarparwyr cyfathrebu perthnasol i ddarparu gwasanaeth cyfnewid fideo brys eu hunain neu gontractio gyda chyflenwr neu gyfanwerthwr cyfnewid fideo i'w ddarparu ar eu rhan; a
- rhwymedigaeth i ddata a ddefnyddir ar gyfer trosglwyddo fideo brys gael ei ddarparu am ddim i'r graddau mwyaf sy'n ymarferol yn dechnegol.

Mae'r ychwanegiadau hyn wedi'u dylunio i wneud dau beth:

- sicrhau bod gwasanaethau cyfnewid fideo brys yn cael eu hariannu'n briodol; ac
- egluro bod yn rhaid i'r defnydd o'r gwasanaeth fod am ddim yn ddiamwys i ddefnyddwyr byddar.

Rydym hefyd wedi gwneud rhai mân ddiwygiadau i'r testun Amod Cyffredinol arfaethedig at ddibenion eglurder. Nodir geiriad diwygiedig yr Amod Cyffredinol arfaethedig yn Atodiad A5.

Rydym hefyd yn cynnig ychwanegiadau i'r meini prawf cymeradwyo drafft ar gyfer gwasanaethau cyfnewid fideo brys. Nod y rhain yw sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar y lefel gyfanwerthu i ddarparwyr cyfathrebu ar delerau teg, rhesymol ac anwahaniaethol. Rydym hefyd yn cynnig na ddylai fod yn ofynnol i ddefnyddwyr byddar gofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth.

Yn olaf, rydym hefyd yn defnyddio'r ddogfen hon i ddarparu rhagor o wybodaeth am bwyntiau a godwyd mewn ymatebion i'n hymgyngoriad cychwynnol.

Rydym yn gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 30 Mawrth 2021, a'n bwriad yw y byddwn yn cyhoeddi datganiad terfynol erbyn diwedd mis Mehefin 2021.